

CYFARFOD PENDERFYNIADAU'R AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS GYMUNEDAU

DYDD MAWRTH, 12^{FED} EBRILL, 2016

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd P.A.Palmer [Aelod o'r Bwrdd Gweithredol]

Roedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:

Ms K. Thomas - Rheolwr Diogelwch Cymunedol

Mrs M. Evans Thomas - Swyddog Gwasanaethau Democraidaidd

Ystafell 61, Neuadd y Sir, Caerfyrddin : 10.00 a.m. - 10.25 a.m.

1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

2. LLOFNODI BOD COFNOD PENDERFYNIADAU CYFARFOD YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS GYMUNEDAU A GYNHALIWDYD AR 14EG MAI 2015 YN GOFNOD CYWIR

PENDERFYNWYD llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 14^{eg} Mai, 2015 yn gofnod cywir.

3. GRANT GWASANAETHAU CAM-DRIN DOMESTIG 2016/17 GAN LYWODRAETH CYMRU

Roddwyd gwybod i'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol fod Llywodraeth Cymru wedi cynyddu ei dyraniad i'r Cyngor o £37,500 i £112,750 er mwyn cefnogi cydgysylltu strategol, Cyngorydd Trais Domestig Annibynnol (IDVA) a chomisiynu gwasanaeth uniongyrchol. Yn flaenorol, roedd y swm o £37,500 yn cyllido swydd Cydgysylltydd Cam-drin Domestig (£27,500) a chyfraniad tuag at wasanaeth Cyngorydd Trais Domestig Annibynnol (£10,000 ac arian cyfatebol gan y Swyddfa Gartref).

Er mwyn cydymffurfio â'r dyddiad cau, roedd cynllun cyflawni drafft wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn cadarnhau sut yr oedd yr Awdurdod yn dymuno dyrannu'r cyllid. Y cynnig oedd cynyddu'r dyraniad ar gyfer swydd y Cydgysylltydd i £34,000 a gwasanaeth y Cyngorydd Trais Domestig Annibynnol i £78,750. Yr oedd yn rhaid i'r penderfyniad ynghylch y dyraniad fod yn seiliedig ar dystiolaeth a chynnwys targedau a chanlyniadau arfaethedig ar gyfer y cyfnod. Gallai'r ddau brosiect fod yn dystiolaeth o ddarparu canlyniadau da (fel yr adroddwyd i Lywodraeth Cymru) ac angen cyllid ychwanegol.

Cyd-gysylltydd Cam-drin Domestig - yr oedd angen cynyddu oriau'r Cyd-gysylltydd i amser llawn er mwyn sicrhau y darperir y gwaith strategol oedd angen ei wneud. Yr oedd yr oriau wedi'u lleihau yn flaenorol er mwyn cydymffurfio â'r cyllid a

ddyranwyd. Yr oedd y gwaith strategol ychwanegol i'w gwblhau yn ystod y flwyddyn yn cynnwys ymateb lleol amlasiantaeth i strategaeth newydd Llywodraeth Cymru sydd i'w chyhoeddi ym mis Tachwedd a chymorth o ran y gofyniad i ddatblygu strategaeth leol a fyddai'n cynnwys lefel sylweddol o waith paratoi gan gynnwys asesiad o anghenion a mapio'r ddarpariaeth gwasanaeth bresennol.

Cynghorydd Trais Domestig Annibynnol - yr oedd gwasanaeth presennol y Cynghorydd Trais Domestig Annibynnol yn cael ei ddarparu gan oddeutu 2 swydd cyfwerth ag amser llawn (Cynghorydd Trais Domestig Annibynnol - 21 awr yr wythnos a gwasanaeth cymorth o 56 awr yr wythnos wedi'i gyllido gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd). Y lefel a argymhellir ar gyfer y gwaith achos yn y sir oedd 4 swydd cyfwerth ag amser llawn, fel y nodwyd mewn adroddiad gan SafeLives, elusen genedlaethol y mae ei gwaith yn cynnwys arwain o ran dulliau amlasiantaeth er mwyn helpu dioddefwyr risg uchel a darparu hyfforddiant Cynghorydd Trais Domestig Annibynnol.

Ystyriwyd y flwyddyn hon gan Lywodraeth Cymru yn flwyddyn bontio cyn i ddull cyllido rhanbarthol gael ei gyflwyno o Ebrill 2017 ymlaen. Byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol i symud tuag at ddull comisiynu a chyllido rhanbarthol a nodwyd y byddai'r Cyd-gysylltydd a gwasanaethau y Cynghorydd Trais Domestig Annibynnol yn cael eu comisiynu'n rhanbarthol o 2017 ymlaen. Yn ystod 2016/17, byddai'r asesiad o anghenion a fyddai'n cael ei wneud yn barod ar gyfer datblygu strategaeth leol yn sicrhau y gellid gweithredu dull seiliedig ar dystiolaeth ynghylch dyrannu cyllid ledled y rhanbarth yn y dyfodol.

Yr oedd y ddau wasanaeth yn cael eu darparu ar hyn o bryd gan Hafan Cymru ac fe'i hystyrid yn ddarbodus i barhau â'r trefniadau presennol o ran darparu gwasanaethau yn y cyfamser, cyn cyflwyno dull rhanbarthol yn 2017. Yr oedd y cynnig hwn yn destun adroddiad eithriadau a oedd wedi cael ei ystyried gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a Phennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith, yn unol â'r Rheolau o ran Gweithdrefnau Contractau yr Awdurdod.

PENDERFYNWYD

- 3.1 cymeradwyo'r cynllun cyflawni a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn manylu ar gynigion yr Awdurdod o ran dyrannu'r cyllid ychwanegol ar gyfer y Cyd-gysylltydd Cam-drin Domestig a'r gwasanaeth Cynghorydd Trais Domestig Annibynnol, fel y manylwyd arno yn yr adroddiad;**
- 3.2 parhau â'r darparwr gwasanaeth presennol ar gyfer y flwyddyn hon, cyn ymgymryd â dull comisiynu rhanbarthol o 2017 ymlaen.**